# Llais Gwent

I Bensiynwyr sy'n Aelodau o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

**Gaeaf 2025**

## Croeso gan y Rheolwr Pensiynau

Ar fy ran i a'r Adran Pensiynau, hoffwn eich croesawu i Rifyn y Gaeaf 2025 o Llais Gwent, ein cylchlythyr i bensiynwyr sy'n aelodau o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen).

Mae uchafbwyntiau'r rhifyn hwn yn cynnwys:

- Lansio fersiwn gwell o Fy Mhensiwn Ar-lein
- Cylchlythyr i bensiynwyr yn symud ar-lein.
- Cwestiynau Cyffredin gan Bensiynwyr
- Cyngor Da i gadw'n Ddiogel Ar-lein



Os allwch chi feddwl am unrhyw welliannau i'r gwasanaeth yr ydyn ni'n ei gynnig, buasem yn croesawu eich adborth. Mae ein rhif ffôn, ein cyfeiriad e-bost a'n cyfeiriad post ar gael ar dudalen olaf eich Llais Gwent.

Gobeithio y bydd yn llawn gwybodaeth ac yn ddiddorol i chi.

Cofion Gorau

*Jo Griffiths*

**Bydd eich pensiwn yn cael ei dalu**
**<u>ddydd Mercher 31 Rhagfyr 2025</u>**

## Cynnydd i'ch Pensiwn o 6 Ebrill 2026

Ym mis Medi 2025 roedd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 3.8% ac, yn amodol ar gadarnhad swyddogol gan y Llywodraeth, bydd eich pensiwn yn codi 3.8% ddydd Llun 6 Ebrill 2026.

Os ydych wedi bod yn cael taliadau pensiwn am lai na 12 mis efallai y cewch gyfran o'r cynnydd.

### Slipiau Talu

Byddwn yn postio slipiau talu atoch ym mis Ebrill a mis Mai 2026, er mwyn i chi allu gweld faint mae eich pensiwn wedi codi. Yr unig bryd fyddwn ni'n postio slip talu atoch ar unrhyw adeg arall fydd pan fo swm y pensiwn rydyn ni'n ei dalu i chi yn y mis hwnnw yn newid £10 neu fwy.

### Eich P60 ar gyfer 2025/26

Byddwn ni hefyd yn anfon P60 atoch gyda'ch slip talu ar gyfer mis Ebrill 2026 . Hwn yw eich **cofnod swyddogol** o'r pensiwn rydyn ni wedi ei dalu i chi yn ystod y flwyddyn, ac unrhyw dreth yr ydych wedi ei thalu arno.

**Defnyddiwch Fy Mhensiwn ar-lein i argraffu eich slipiau talu a'ch P60 a chofiwch ein bod yn anfon slip talu i'ch cyfrif Fy Mhensiwn ar-lein bob mis.**

# Cyflwyno Fy Mhensiwn Ar-lein

**Syml, Diogel, 24/7.  Rhowch Gynnig Arni Heddiw**



Yn ystod mis Awst 2025, fe wnaethom adnewyddu ein gwasanaeth Fy Mhensiwn Ar-lein gan gynnig dyluniad modern a'i wneud yn fwy ymarferol i aelodau reoli eu cyfrif CPLlL unrhyw le, unrhyw bryd.

**Beth yw Fy Mhensiwn Ar-lein**

Mae Fy Mhensiwn Ar-lein yn wasanaeth ar-lein 24/7 am ddim, sy'n eich galluogi i gael mynediad at eich cyfrif pensiwn yn ddiogel. Mae Fy Mhensiwn Ar-lein yn ei gwneud hi'n hawdd:

- Gweld manylion eich pensiwn, yn cynnwys enwebiadau am grantiau marwolaeth.
- Diweddaru eich manylion personol gan gynnwys manylion banc drwy eich cyfrif
- Cael hyd i ddogfennau a gyhoeddwyd.
- Anfon gwybodaeth yn ddiogel i'r Gronfa
- Gweld slipiau Talu a ffurflenni P60 y gallwch eu lawr lwytho, mewn un lle.

**Beth sy'n newydd?**

Golwg Newydd, Ffres: Dyluniad gwell a hawdd ei lywio

Mwy diogel: Dilysu Aml-Ffactor SMS

Cofrestru Cyflym: Gwirio ID electronig er mwyn cofrestru'n gyflym.

**Sut i gofrestru**

Mae'n hawdd dechrau arni:

Ewch i www.gwentpensionfund.co.uk a chlicio **Fy Mhensiwn Ar-lein** ar frig y sgrin.

**Defnyddwyr ffôn symudol:** Tapiwch yr eicon tair llinell, nesaf at y chwyddwydr. Sgroliwch i lawr y ddewislen tan i chi weld Fy Mhensiwn Ar-lein.

Cliciwch **"Hoffwn greu cyfrif"** a dilyn y camau.

Gwyliwch y fideo cofrestru ar https://gwentpensionfund.pensiondetails.co.uk/

Angen help? Cysylltwch â'n Tîm Systemau i gael cymorth i gofrestru.

Ffôn: 01495 742299

E-bost: mypensiononline@torfaen.gov.uk

# Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI)

Mae NFI yn helpu i ddod o hyd i dwyll, a'i atal, trwy gyfateb data ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus, o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
Mae Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) yn rhan o'r fenter gan ei bod yn ddyletswydd arnom i ddiogelu'r arian cyhoeddus yr ydyn ni'n ei weinyddu yn y cynllun. Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio arian cyhoeddus neu eu weinyddu, er mwyn helpu i atal twyll

Rhown wybodaeth yn ôl yr angen i Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn cyfateb data.

Gweithredir NFI o dan y *'**Cod Ymarfer Cyfateb Data***. Cewch ragor o wybodaeth am gyfateb data a'r Cod ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru : **[www.audit.wales/our-work/national-fraud-initiative](www.audit.wales/our-work/national-fraud-initiative)**




**Newidiadau i'r ffordd rydych chi'n cael eich cylchlythyr yn y dyfodol a pham rydyn ni'n gwneud newidiadau**

O'r flwyddyn nesaf, rydym yn newid ein ffordd o gyflwyno cylchlythyrau i'n pensiynwyr. Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i effeithlon-rwydd, bod yn gyfrifol o ran yr amgylchedd, ac alinio ein prosesau ag ymarferion postio eraill, bydd y cylchlythyrau yn cael eu llwytho i fyny i gyfrifon Fy Mhensiwn Ar-lein.

Os ydych eisoes wedi cofrestru ar Fy Mhen-siwn Ar-lein neu os oes gennym ni gyfeiriad e-bost dilys ar eich cyfer, byddwch yn derbyn e-bost gennym pan fydd y cylchlythyr ar gael ar Fy Mhensiwn Ar-lein. Bydd yr e-bost yn cyn-nwys cyfarwyddiadau yn egluro sut i gael eich cylchlythyr a sut i gofrestru ar gyfer FMA os nad ydych wedi gwneud hynny eto. Bydd y dull newydd yn sicrhau eich bod yn derbyn eich cylchlythyr yn brydlon ac yn ddiogel, a bydd hyn yn ei helpu i leihau gwastraffu papur a chadw ein costau yn is.

I bensiynwyr sydd heb gofrestru ar gyfer FMA eto neu nad oes gennym gyfeiriad e-bost ar eu cyfer, byddwn yn anfon llythyr yn esbonio sut i gofrestru ar gyfer FMA fel y gallwch gael eich cylchlythyr ar-lein. Mae'r broses gofrestru bellach wedi cael ei symleiddio i'w gwneud mor hawdd â phosibl.

Rydym yn gwerthfawrogi bod y newid hwn yn newid mawr, ond mae'n rhan o'n hymdrechion i wella dulliau cyfathrebu, lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, a defnyddio cyllid cyhoeddus yn fwy effeithiol.

Angen cymorth? Cysylltwch â'n Tîm Systemau i gael cymorth i gofrestru ar Fy Mhensiwn Ar-lein

Ffôn: 01495 742299

E-bost: [mypensiononline@torfaen.gov.uk](mailto:mypensiononline@torfaen.gov.uk)

# Cwestiynau Cyffredin gan Bensiynwyr

**Gyda phwy ydw i'n siarad am ymholiad gyda fy nhreth?**

Rydyn ni'n defnyddio'r cod treth a ddarperir gan Gyllid a Thollau EF (CThEF)

Os oes gennych gwestiynau am eich cod treth, cysylltwch â CThEF yn uniongyrchol:

 **0300 200 3300**
 www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs

**Sut i roi gwybod i ni am newidiadau**
Y ffordd hawsaf i ddiweddaru eich manylion personol neu eich manylion banc yw drwy ein gwasanaeth Fy Mhensiwn Ar-lein. Ymwelwch â'n gwefan www.gwentpensionfund.co.uk a dilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin i gofrestru neu fewngofnodi.

**Sut ydw i'n newid fy manylion banc?**
Rhaid i'ch cyfrif fod yn eich enw neu os yw'n gyfrif ar y cyd, rhaid cynnwys eich enw fel un o ddeiliaid y cyfrif.

1. Mewngofnodwch i Fy Mhensiwn Ar-lein
2. Cliciwch **"Diweddaru Fy Manylion"**
3. Dewiswch "Rheoli Fy Manylion Banc"
4. Cliciwch "Golygu Fy Manylion Banc
5. Rhowch eich manylion newydd a chlicio "Cyflwyno Cais"

Os nad ydych chi wedi cofrestru, cysylltwch â ni drwy e-bost neu dros y ffôn i ofyn am ffurflen cyfrif banc drwy'r post.

Sylwer: Rydym yn cau ein cyflogres pensiwn ar yr 20fed o bob mis. Efallai na fydd newidiadau a wneir ar ôl y dyddiad hwn, i'w gweld tan y mis canlynol

**Sut ydw i'n newid fy manylion personol?**

**Newid statws partneriaeth neu fanylion personol**

I ddiweddaru eich Statws Partneriaeth, bydd angen i chi lenwi Ffurflen Statws Partneriaeth.

1. Ewch i'n gwefan www.gwentpensionfund.co.uk,
2. Cliciwch ar y chwyddwydr i agor y blwch chwilio a theipio "ffurflen statws partneriaeth".
3. Gallwch weld y ffurflen a'i lawr lwytho o'r canlyniadau chwilio.

Gallwch lenwi'r ffurflen yn electronig a'i hanfon mewn e-bost neu ei llwytho i fyny trwy eich cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein.

**Newid Manylion Cyswllt (Cyfeiriad, Rhif Ffôn a Chyfeiriad e-bost)**

I ddiweddaru eich cyfeiriad, rhif ffôn neu e-bost:

**Mewngofnodwch i Fy Mhensiwn Ar-lein**

1. Cliciwch **"Diweddaru Fy Manylion"**
2. Dewiswch **"Rheoli Fy Manylion Personol**
3. Cliciwch **"Golygu Fy Manylion Cyswllt"**

Rhowch eich gwybodaeth newydd a chlicio **"Cadw Newidiadau"**

**Neu, anfonwch e-bost atom** at pensions.payroll@torfaen.gov.uk yn cynnwys eich enw llawn, rhif cyfeirnod eich pensiwn a'r newidiadau yr hoffech chi eu gwneud.

# Cyngor Da i Gadw'n Ddiogel Ar-lein

Mae'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NSCS) yn cynnig cyngor da i amddiffyn eich hun, eich teulu a'r dechnoleg rydych chi'n ei defnyddio i leihau'r risg o gael eich targedu gan seiberdroseddwyr.

**Defnyddiwch gyfrineiriau cryf a gwahanol ar gyfer eich cyfrifon e-bost ac ar-lein**

- Cofiwch osgoi defnyddio'r un cyfrinair ar gyfer sawl cyfrif ar-lein. Mae defnyddio'r un cyfrinair yn golygu mai dwyn un cyfrinair yn unig sydd angen i droseddwyr ei wneud i gael mynediad i'ch holl gyfrifon
- Defnyddiwch gyfrinair cryf ac un gwahanol ar gyfer eich cyfrif e-bost bob amser. Os yw seiberdroseddwyr yn dwyn cyfrinair ar gyfer cyfrif llai pwysig, ni fyddant yn gallu ei ddefnyddio i gael mynediad i'ch e-bost.

**Diweddarwch feddalwedd ac apiau**

- Diweddarwch eich apiau a'ch meddalwedd ar ddyfeisiau cyn gynted ag y bydd diweddariad ar gael. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu eich dyfeisiau a'ch cyfrifon rhag troseddwyr.

**Trowch y Gwiriad Dau Gam ymlaen (2SV)**

- Amddiffynnwch eich cyfrifon pwysicaf gan ddefnyddio'r gwiriad 2 gam (2SV) neu ddilysu aml-ffactor (MFA).
- Ffordd effeithiol o amddiffyn eich cyfrifon rhag seiberdroseddwyr sy'n rhoi haen ychwanegol o ddiogelwch os ydyn nhw'n dwyn eich cyfrineiriau .
- Gwahanol ddulliau yn cynnwys olion bysedd, sganiau wyneb neu ap gwirio

**Defnyddio porwyr ac apiau i storio cyfrineiriau yn ddiogel**

- Angen help i gofio eich cyfrineiriau? Defnyddiwch reolwr cyfrineiriau neu eu cadw yn eich porwr.
- Defnyddiol wrth greu cyfrineiriau gwahanol ar gyfer cyfrifon fel nad oes angen i chi eu cofio.
- Byddwch yn ofalus os ydych chi'n rhannu cyfrifiadur neu ddyfais, o ran pwy arall allai gael mynediad at y cyfrineiriau rydych chi wedi'u cadw.

**Gwnewch gopi wrth gefn o'ch data**

- Nid yw gwneud copïau wrth gefn yn cymryd llawer o amser a gallwch hyd yn oed ei osod mewn ffordd sy'n digwydd yn awtomatig .
- Ffordd heb ofid o osgoi colli eich data .
- Storiwch gopi wrth gefn yn y storfa gwmwl, gan ddileu'r gyriant caled neu'r cof bach.

**Dim gwendid**

- Gall troseddwyr drechu cyfrineiriau gwan mewn eiliadau
- Mae cyfrineiriau hirach ac anarferol yn ei gwneud hi'n anoddach i droseddwyr ddwyn eich cyfrinair
- Defnyddiwch dri gair ar hap gyda'i gilydd i greu cyfrinair anodd neu defnyddiwch reolwr cyfrineiriau i greu cyfrinair

Ewch i wefan NCSC i ganfod mwy am y cyngor da i gadw'n ddiogel ar-lein: [www.ncsc.gov.uk/collection/top-tips-for-staying-secure-online/](www.ncsc.gov.uk/collection/top-tips-for-staying-secure-online/)

# Pos Pensiynwyr— Amser Sudoku



| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 3 | | 4 | 8 | 7 | | |
| | 7 | | | 2 | | | | |
| | 6 | | 9 | | 7 | | 1 | 4 |
| | 4 | | | | | 3 | | 1 |
| | 1 | 8 | 4 | 5 | | | | |
| | | | | 1 | 2 | 4 | 5 | |
| | | | 3 | 7 | 6 | 8 | 4 | 5 |
| 6 | | 7 | | | | | 3 | |
| | | | | | | | 7 | |

## Cyfarwyddiadau ar gyfer Cwblhau Sudoku

I gwblhau'r pos sudoku yn llwyddiannus, llenwch y grid fel bod pob rhes, pob colofn a phob blwch 3x3 yn cynnwys yr holl rifau o 1 i 9, heb ailadrodd unrhyw rif o fewn yr un rhes, colofn neu flwch.

Mae'r ateb ar gyfer y sudoku i'w weld ar y dudalen nesaf.

## Dywedwch Wrthym Unwaith

Rydyn ni'n rhan o'r gwasanaeth "Dywedwch Wrthym Unwaith" a gynigir wrth gofrestru profedigaeth. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn ar wefan gov.uk:

https://www.gov.uk/after-a-death/organisations-you-need-to-contact-and-tell-us-once

## Cadw llygad ar eich holl bensiynau

Efallai y byddwch wedi cronni cynilion pensiwn gyda chyflogwr arall. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw mewn cysylltiad â nhw er mwyn iddyn nhw allu talu eich pensiwn pan fydd yn ddyledus.

Os ydych wedi colli golwg ar bensiynau blaenorol, gall y Gwasanaeth Tracio Pensiynau helpu.

Ewch i wefan gov.uk www.gov.uk/find-pension-contact-details

## Pos Pensiynwyr—Atebion

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | 9 | **3** | 1 | **4** | **8** | **7** | 6 | 2 |
| 4 | **7** | 1 | 6 | **2** | 5 | 9 | 8 | 3 |
| 8 | **6** | 2 | **9** | 3 | **7** | 5 | **1** | **4** |
| 7 | **4** | 5 | 8 | 6 | 9 | **3** | 2 | **1** |
| 2 | **1** | **8** | **4** | **5** | 3 | 6 | 9 | 7 |
| 9 | 3 | 6 | 7 | **1** | **2** | **4** | **5** | 8 |
| 1 | 2 | 9 | **3** | **7** | **6** | **8** | **4** | **5** |
| **6** | 5 | **7** | 2 | 8 | 4 | 1 | **3** | 9 |
| 3 | 8 | 4 | 5 | 9 | 1 | 2 | **7** | 6 |

## Gwiriadau Ardystio Bywyd i Bensiynwyr Tramor

O bryd i'w gilydd mae angen i Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) wirio bod ein cofnodion ar gyfer Pensiynwyr Tramor mewn trefn, er mwyn sicrhau bod taliadau pensiwn yn dal i gael eu talu. Mae'r broses Ardystio Bywyd yn sicrhau bod ein cofnodion yn gywir, mae'n ymarfer gwrth-dwyll ac mae'n diogelu asedau Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen).


Diolch yn fawr i'r rheiny ohonoch sydd wedi cwblhau'r broses.

Rydym hefyd yn diolch i chi am yr adborth rydych chi wedi'i roi eleni. Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd i wella'r broses ardystio bywyd.

## Dweud wrthym eich bod yn symud dramor

Os ydych chi'n symud dramor, rydyn ni'n gwybod y bydd yn adeg brysur i chi a bod llawer gennych i'w wneud!! Ond, er mwyn sicrhau nad yw'n effeithio ar eich taliadau pensiwn mae'n bwysig iawn eich bod yn dweud wrthym eich bod yn symud dramor.

Defnyddiwch eich cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein i newid eich cyfeiriad, neu fe allwn gymryd eich cyfeiriad newydd dros y ffôn neu trwy e-bost. Os oes angen newid eich taliadau pensiwn i gyfrif banc tramor arnoch, defnyddiwch eich tudalen gyswllt ar Fy Mhensiwn Ar-lein i gysylltu ac fe allwn ni anfon Ffurflen Cyfrif Banc Tramor atoch er mwyn i ni drefnu hyn ar eich cyfer.



# Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

# 2026 Diwrnodau Tâl Pensiwn

**Ionawr**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 |
| 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
| 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 |
| 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | 31 | |

**Chwefror**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 1 |
| 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
| 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 |
| 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | |

**Mawrth**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 1 |
| 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
| 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 |
| 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 |
| 30 | 31 | | | | | |

**Ebrill**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 |
| 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 |
| 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 |
| 27 | 28 | 29 | 30 | | | |

**Mai**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | 2 | 3 |
| 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 |
| 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 |
| 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | 31 |

**Mehefin**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | | | | | |

**Gorffennaf**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 |
| 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 |
| 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 |
| 27 | 28 | 29 | 30 | 31 | | |

**Awst**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | 2 |
| 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 |
| 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 |
| 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 |
| 31 | | | | | | |

**Medi**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
| 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
| 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 |
| 28 | 29 | 30 | | | | |

**Hydref**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 |
| 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
| 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 |
| 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | 31 | |

**Tachwedd**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 1 |
| 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
| 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 |
| 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 |
| 30 | | | | | | |

**Rhagfyr**

| Ll | Ma | Me | I | Gw | Sa | Su |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
| 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
| 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 |
| 28 | 29 | 30 | 31 | | | |

Diwrnod tâl pensiwn yw dyddiad gwaith olaf y mis, a ddangosir yn oren ar y calendr

Crofna Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB

01633 647799

pensions.payroll@torfaen.gov.uk

**Fy Mhensiwn Ar-lein**

Cofrestrwch Nawr!

www.gwentpensionfund.co.uk

Talu Wrth Ennill a HunanAsesiad
Cyllid a Thollau EF
BX9 1AS

Cyfeirnod PAYE 948/T440N
0300 2003300